## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio

30 Mehefin 2014

Annwyl Weinidog

**Sesiwn graffu yn ystod y flwyddyn - cais am ragor o wybodaeth yn dilyn y cyfarfod ar 19 Mehefin**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 19 Mehefin 2014 i roi tystiolaeth fel rhan o'n rhaglen craffu ar waith y Gweinidog yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- eglurhad o'r diffiniad technegol o 'dai fforddiadwy' fel y cyfeirir atynt mewn perthynas â thargedau, a nodyn ar y gwahaniaethau rhwng defnydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r term "fforddiadwy";
- dadansoddiad o statws pob awdurdod lleol mewn perthynas â'u dyddiadau targed o ran cwblhau Safon Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys manylion am unrhyw awdurdod na fydd, o bosibl, yn cyrraedd y targed;
- dadansoddiad manwl o'r ffigurau ar gyfer y cynllun rhannu ecwiti 'Cymorth i Brynu' ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru;
- nodyn ar y cynlluniau busnes a'r prosiectau o fewn eich portffolio sy'n ymwneud â'r gronfa gofal canolraddol a'r canlyniadau a ddisgwylir;
- manylion am yr adolygiad Adran 180 o'r Rhaglen Grantiau Digartrefedd, pan fo'r rhain ar gael;

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8032
E-bost / Email : Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk


- y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wneir gan swyddogion i wneud yn siŵr fod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn sicrhau gwerth am arian.

Yn ogystal â'r uchod, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:

- manylion am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru, TPAS Cymru a Tenantiaid Cymru, a gwybodaeth ynghylch pryd y mae'n debygol y caiff penderfyniad ar gyllid hirdymor ei wneud;
- adolygiad o sut y gellir monitro addasiadau ledled Cymru;
- eglurhad o sut y mae'r adolygiad o addasiadau i'r cartref yn ystyried y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir



Christine Chapman AC
Cadeirydd